



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 Rhif 2862 (Cy. 22)

1999 No. 2862 (W. 22)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg
(Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau)
(Cymru) 1999**

**The Education
(Student Fees) (Exceptions)
(Wales) Regulations 1999**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r Nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This Note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn eithrio ffioedd penodol o ystyr "ffioedd" ym Mhennod 1 o Ran II o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998").

These Regulations except certain fees from the meaning of "fees" in Chapter 1 of Part II of the Teaching and Higher Education Act 1998 ("The 1998 Act").

Mae Adran 28 o Ddeddf 1998 yn darparu diffiniad o "ffioedd" at ddibenion Pennod 1 o Ran II o'r Ddeddf honno, sy'n eithrio categorïau penodol o ffioedd a "such other fees as may be prescribed".

Section 28 of the 1998 Act provides a definition of "fees" for the purposes of Chapter 1 of Part II of that Act, excluding certain categories of fees and "such other fees as may be prescribed".

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 28 o Ddeddf 1998 ac maent yn rhagnodi categorïau pellach o ffioedd a eithrir. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Atodlen.

These Regulations are made under section 28 of the 1998 Act and prescribe further categories of excepted fees. These are set out in the Schedule.

Gwaherddir sefydliadau addysg bellach rhag codi ffioedd "atodol". Mae'r gwaharddiad yn cael ei wneud o dan bwerau a roddir gan Adran 26 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998: gorfodir amod ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo osod amod ar y cyllid y mae'n ei ddyrannu i sefydliadau sy'n darparu addysg uwch.

Higher education institutions are prohibited from charging "top up" fees. The prohibition is made under powers granted by Section 26 of the Teaching and Higher Education Act 1998: a condition is imposed on the Higher Education Funding Council for Wales requiring it to place a condition on the funding it allocates to institutions providing higher education.

O dan drefniadau'r Llywodraeth ar gyfer cyllido addysg bellach, mae myfyrwyr sy'n gymwys i gael cymorth yn gwneud cyfraniad personol at eu ffioedd ar sail asesiad o'u hincwm. Mae'n bosibl na fydd hyn yn fwy na £1,025 am y flwyddyn sy'n dechrau yn hydref 1999.

Under the Government's arrangements for funding higher education, students eligible for support make an income-assessed personal contribution to their fees. This may not exceed £1,025 for the year beginning in autumn 1999.

Er hynny, yn y gorfennol mae prifysgolion a cholegau wedi codi tâl am nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn rhan o "ddarpariaeth graidd" cwrs. Byddai'r gwaharddiad ynglŷn â ffioedd atodol yn atal hynny, felly mae'r Rheoliadau hyn yn eithrio taliadau penodol o'r fath o'r diffiniad o ffioedd a gwmpesir gan yr amod sydd wedi'i orfodi. Diben y Rheoliadau hyn yw caniatáu i brifysgolion a cholegau barhau i godi tâl am nwyddau neu wasanaethau fel y maent wedi'i wneud yn draddodiadol. Mae'r

However universities and colleges have in the past and need to continue to charge for goods and services not forming part of the "core provision" of a course. The prohibition on top up fees would prevent this, so these Regulations exclude certain such charges from the definition of fees covered by the condition which has been imposed. The purpose of these Regulations is to allow universities and colleges to continue to charge for goods or services as they have traditionally done.

Rheoliadau felly yn rhoi sail gyfreithiol ar gyfer parhau ag arferiad sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Rheoliadau yn diffinio "darpariaeth graidd" i olygu darparu nwyddau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â chwrs sydd wedi'i fwriadu, drwy alluogi'r myfyriwr i gael medrau neu wybodaeth, i roi cyfle i'r myfyriwr ennill hyd at y radd neu'r cymhwyster uchaf ar gyfer y cwrs (neu, lle mae mwy nag un radd neu gymhwyster wedi'i gynnwys mewn cwrs, yr uchaf o'r holl raddau neu gymwysterau ar gyfer y cwrs).

Bydd y Rheoliadau hyn yn caniatáu codi tâl am nwyddau nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth graidd neu lle daw'r nwyddau yn eiddo i'r myfyriwr; am wasanaethau nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth graidd; unrhyw ffi sy'n ad-daliad o unrhyw ffi neu dâl y mae'r sefydliad yn ei dalu i rywun arall mewn cysylltiad â phresenoldeb y myfyriwr ar gwrs, neu â chwblhau'r cwrs; unrhyw ffi mewn perthynas ag unrhyw dreuliau gweinyddol ychwanegol a dynnir gan y sefydliad o ganlyniad i unrhyw esgeulustod neu ddiffyg gan y myfyriwr; unrhyw ffi mewn perthynas â chyfleusterau teithio a ddarperir gan y sefydliad.

The Regulations therefore give a legal basis for continuing an existing practice.

The Regulations define "core provision" to mean the provision of goods or services related to a course which is intended, by enabling the student to acquire skills or knowledge, to afford the student the opportunity to attain up to the highest grade or qualification for the course (or, where more than one grade or qualification is comprised in a course, the highest of all the grades or qualifications for the course).

The Regulations will allow charges to be made for goods which do not form part of the core provision or where the goods become the property of the student; for services which are not part of the core provision; any fee which represents a reimbursement of any fee or charge which the institution pays to some other person in connection with the student's attendance on, or completion of the course; any fee in respect of any additional administrative expenses incurred by the institution as a result of any negligence or default by the student; any fee in respect of travel facilities provided by the institution.

1999 Rhif 2862 (Cy. 22)**1999 No. 2862 (W. 22)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg
(Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau)
(Cymru) 1999****The Education
(Student Fees) (Exceptions)
(Wales) Regulations 1999**

Wedi'u gwneud 26 Awst 1999
Yn dod i rym 1 Medi 1999

Made 26th August 1999
Coming into force 1st September 1999

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28(1) (e) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(a), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b):

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 28(1)(e) and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998(a), and now vested in the National Assembly for Wales(b):

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau) (Cymru) a deuant i rym ar 1 Medi 1999.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr “y Ddeddf” yw Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Citation, commencement and interpretation

1.—(1) These Regulations may be cited as the Education (Student Fees) (Exceptions) (Wales) Regulations and shall come into force on 1st September 1999.

(2) In these Regulations “the Act” means the Teaching and Higher Education Act 1998.

Cymhwysio

2. Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r diffiniad o ffioedd sy'n daladwy i sefydliadau yng Nghymru at ddibenion Pennod 1 o Ran II o'r Ddeddf.

Application

2. These Regulations shall apply to the definition of fees payable to institutions in Wales for the purposes of Chapter I of Part II of the Act.

Ffioedd a eithrir o'r diffiniad o ffioedd yn adran 28(1) o'r Ddeddf.

3. Rhagnodir unrhyw ffi o ddisgrifiad a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn at ddiben adran 28(1)(e) o'r Ddeddf (sy'n darparu bod ffioedd sy'n cael eu rhagnodi wedi'u heithrio o ystyr ffioedd ym Mhennod 1 o Ran II o'r Ddeddf).

Fees excluded from the definition of fees in section 28(1) of the Act

3. Any fee of a description specified in the Schedule to these Regulations is prescribed for the purpose of section 28(1)(e) of the Act (which provides that fees which are prescribed are excluded from the meaning of fees in Chapter I of Part II of the Act).

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c).

Signed on behalf of the Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c).

26 Awst 1999

26th August 1999

Dafydd Elis Thomas

*Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru**The Presiding Officer of the National Assembly for Wales*

(a) 1998 p.30.

(a) 1998 c.30.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1998 p.38.

(c) 1998 c.38.

**FFIOEDD A EITHRIR O'R DIFFINIAD O
FFIOEDD YN ADRAN 28(1) O'R DDEDDF.**

**FEEES EXCLUDED FROM THE DEFINITION
OF FEES IN SECTION 28(1) OF THE ACT.**

**RHAN 1
DEHONGLI**

1. Yn yr Atodlen hon ystyr “darpariaeth graidd” mewn perthynas â nwyddau neu wasanaethau yw darparu nwyddau neu wasanaethau sy'n ymwneud â chwrs a fwriedir, drwy alluogi'r myfyriwr i gael medrau neu wybodaeth, i roi cyfle i'r myfyriwr gyrraedd hyd at y radd neu'r cymhwyster uchaf ar gyfer y cwrs (neu, lle bo mwy nag un radd neu gymhwyster yn gynnwysedig mewn cwrs, yr uchaf o'r holl raddau neu gymwysterau ar gyfer y cwrs).

**RHAN II
DISGRIFIAD O'R FFIOEDD**

2. Unrhyw ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â darparu nwyddau i'r myfyriwr (p'un ai drwy werthu neu hurio) heblaw nodiadau ar ddarlithoedd unigol, crynodebau o ddarlithoedd neu ddeunyddiau tebyg —

- (a) lle nad yw'r nwyddau yn rhan o'r ddarpariaeth graidd ar gyfer y cwrs, neu
- (b) lle daw'r nwyddau yn eiddo i'r myfyriwr (p'un ai adeg talu'r ffi neu ar unrhyw adeg ar ôl hynny),

ar yr amod, lle mae nwyddau'n ffurfio rhan o'r ddarpariaeth graidd i'r cwrs a'i bod yn angenrheidiol trefnu bod y nwyddau ar gael i'r myfyriwr mewn cysylltiad ag iechyd neu ddiogelwch y myfyriwr wrth fynychu'r cwrs, ni fydd is-baragraff (b) yn gymwys oni fydd y sefydliad hefyd yn trefnu bod y nwyddau ar gael i'r myfyriwr (heb i'r nwyddau ddod yn eiddo i'r myfyriwr) heb dâl.

3. Unrhyw ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r myfyriwr lle nad yw'r gwasanaethau yn rhan o'r ddarpariaeth graidd ar gyfer y cwrs.

At ddibenion y paragraff hwn ymdrinnir â rhoi llyfrau neu ddeunyddiau eraill ar gadw mewn llyfrgell fel darpariaeth graidd ar gyfer y cwrs.

4. Unrhyw ffi sy'n ad-daliad o gost unrhyw ffi neu bris y mae'r sefydliad yn ei dalu i ryw berson arall ac eithrio pris a godir mewn perthynas â darparu nwyddau i'r sefydliad, mewn cysylltiad â phresenoldeb y myfyriwr ar y cwrs, neu â chwblhau'r cwrs gan y myfyriwr.

5. Unrhyw ffi mewn perthynas ag unrhyw dreuliau

**PART I
INTERPRETATION**

1. In this Schedule “core provision” in relation to goods or services means the provision of goods or services related to a course which is intended by enabling the student to acquire skills or knowledge, to afford the student the opportunity to attain up to the highest grade or qualification for the course (or, where more than one grade or qualification is comprised in a course, the highest of all the grades or qualifications for the course).

**PART II
DESCRIPTION OF FEES**

2. Any fee payable in connection with the supply to the student (whether by sale or hire) of goods other than individual lecture notes, summaries of lectures or similar materials, where —

- (a) the goods do not form part of the core provision for the course, or
- (b) the goods become the property of the student (whether at the time the fee is paid or at any later time),

provided that where goods form part of the core provision for the course and it is necessary to make available the goods to the student in connection with the student's health or safety when attending the course, subparagraph (b) shall not apply unless the institution also makes the goods available to the student (without the goods becoming the property of the student) without charge.

3. Any fee payable in connection with the supply of services to the student where the services do not form part of the core provision for the course.

For the purposes of this paragraph the reservation of books or other materials at a library shall be treated as core provision for the course.

4. Any fee which represents a reimbursement of the cost of any fee or charge, which the institution pays to some other person other than a charge made in respect of the supply of goods to the institution, in connection with the student's attendance on, or completion of, the course.

5. Any fee in respect of any additional administrative

gweinyddol ychwanegol a dynnir gan y sefydliad o ganlyniad i unrhyw esgeulustod neu fethiant gan y myfyriwr (gan gynnwys treuliau gweinyddol sy'n deillio o'r ffaith bod y myfyriwr yn ailsefyll arholiad, asesiad o waith cwrs, neu fodiwl cwrs).

6. Unrhyw ffi mewn perthynas â chyfleusterau teithio a ddarperir gan y sefydliad.

expenses incurred by the institution as a result of any negligence or default by the student (including administrative expenses arising from the student re-taking an examination, assessment of course work, or module of a course).

6. Any fee in respect of travel facilities provided by the institution.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

1999 Rhif 2862 (Cy. 22)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg
(Ffioedd Myfyrwyr) (Eithriadau)
(Cymru) 1999

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 No. 2862 (W. 22)

EDUCATION, WALES

The Education
(Student Fees) (Exceptions)
(Wales) Regulations 1999

©© Hawlfraint y Goron 1999

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan
The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth
Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau
Seneddol y Frenhines.


£2.00

WO 5668 11/99 ON

© Crown copyright 1999

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090010-3



9 780110 900100